# PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | **31 Ionawr 2001** |
| **Amser** | **9.00am** |
| **Lleoliad** | **Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol** |

## Teitl: Fforwm Cymru ar Faterion Ewropeaidd

## Diben

1.Ystyried rôl a gwaith y Fforwm yn y dyfodol.

## Argymhelliad

2.Gwahoddir aelodau'r Pwyllgor i ystyried yr argymhellion a gyflwynwyd gan Ganolfan Gymreig Materion Rhyngwladol yn ei lythyr ar 15 Ionawr.

## Cefndir

3.Sefydlwyd Fforwm Cymru ar Faterion Ewropeaidd i gydnabod amcan y Cynulliad o ddatblygu proffil Cymru yn Ewrop ac yn rhyngwladol ac mae'n codi o un o'r argymhellion a wnaed yn adroddiad y Grp Strategaeth Ewropeaidd "The National Assembly for Wales and the European Union" a gyhoeddwyd ym 1998.

4.Penderfynwyd sefydlu'r Fforwm yng nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ar 1 Gorffennaf 1999, pan gytunwyd y dylai'r Fforwm fod o natur sy'n archwilio ac yn rhyngweithio ac yn cynnwys pobl sy'n gweithio ar lawr gwlad yng Nghymru.

5.Mae'r Fforwm wedi cwrdd ddwywaith – ar 22 Hydref 1999 a 12 Mai 2000, yn Arena Ryngwladol Caerdydd. Daeth cynulleidfa eang o'r cyhoedd, a chyrff preifat a gwirfoddol, i'r ddau achlysur. Dirprwy Lywydd y Comisiwn Ewropeaidd, Neil Kinnock, oedd yn annerch y cyntaf. Archwiliwyd nifer o faterion allweddol ar yr agenda Ewropeaidd, gan gynnwys trafnidiaeth a rhwydweithiau ar draws Ewrop, Cymhorthion Gwladol, Cyfle Cyfartal, gwaith amryfal sefydliadau'r UE a chynrychiolaeth o Gymru ym Mrwsel. Yr Arglwydd Britta o Spennithorne oedd yn annerch yn yr ail gyfarfod. Canolbwyntiwyd ar effeithiau'r UE ar fusnesau yng Nghymru.

6.O gofio'r pwys a roddir i barhad gweithgareddau'r Fforwm, ac yn benodol, yr angen i sicrhau bod ei waith yn berthnasol a bod iddo ffocws, bydd Prif Weinidog Cymru yn ysgrifennu at arweinyddion y pleidiau yn gwahodd eu barn ar rôl a gwaith y Fforwm hyd yn hyn ac unrhyw syniadau y gallai fod ganddynt ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol.

7. Mae'r cynnig sy'n amgaeedig gan Ganolfan Cymru ar gyfer Materion Rhyngwladol yn awgrymu nifer o argymhellion ar y modd y gallai'r Fforwm symud yn ei flaen.

**Cydymffurfio**

8.Gall y Cynulliad ddibynnu ar adrannau 33 a 40 Deddf Llywodraeth Cymru (sydd wedi'u dirprwyo i Brif Weinidog Cymru) sy'n rhoi cyfle i'r Cynulliad ystyried unrhyw faterion sy'n effeithio ar Gymru, gwneud cyflwyniadau yn eu cylch, a gwneud unrhyw beth y bwriedir iddo hwyluso, neu arwain at, neu sy'n ganlyniad i, weithredu ei swyddogaethau. Nid oes unrhyw faterion yn ymwneud â phriodoldeb na chywirdeb. Ymgynghorwyd â Swyddfa Gydymffurfio'r Cynulliad, ac mae'n fodlon ar yr agweddau cydymffurfio.

**Goblygiadau Ariannol**

9.Cost cynnal dau Fforwm bob blwyddyn yw tua £6,000. Gellir gofalu am wariant hyd at y lefel hon yn ystod y flwyddyn ariannol hon o fewn Cyllideb Gwasanaethau Cefnogi Amrywiol 2000-01. Ymgynghorwyd â'r Is-adran Cynllunio Ariannol a nodwyd nad oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol i'r Cynulliad.

**Themâu trawsbynciol**

10.Mae ystod eang o bartneriaid o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol yn cymryd rhan yn y Fforwm.

**Cyswllt**

11.**Yr Is-adran Materion Ewropeaidd**